

Adroddiad Cyflwr y Genedl 2016: Genedl 2016: Cysylltu Bywydau Cymru



Hawlfraint © Ategi

SharedLivesPlus
THE UK NETWORK FOR SHARED LIVES AND HOMESHARE

SharedLivesPlus
RHWYDWAITH Y DU AR GYFER CYSYLLTU BYWYDAU A HOMESHARE

www.SharedLivesPlus.org.uk
Twitter: @SharedLivesPlus

Negeseuon Allweddol Cysylltu Bywydau Cymru

- Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cysylltu Bywydau ers iddo ddechrau yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol, gyda chyfanswm o 970 o bobl yn ei ddefnyddio erbyn hyn.
- Ar hyn o bryd, mae Caerffili yn defnyddio gwasanaethau Cysylltu Bywydau i gynorthwyo 14% o bobl ag anableddau dysgu. Pe bai pob rhan o Gymru'n efelychu hyn, gallai 994 yn rhagor o bobl ag anableddau dysgu fod yn defnyddio Cysylltu Bywydau, gydag arbedion newydd o ryw £16,796,000 (yn seiliedig ar 65% o drefniadau hirdymor cyfartalog yng Nghymru).
- Mae Cysylltu Bywydau gryn dipyn yn rhatach y pen na mathau traddodiadol o ofal. Er hynny, mae'n parhau i sicrhau canlyniadau o ansawdd, felly mae'n cyd-fynd yn dda â gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer y dyfodol, sef gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hyblyg ac arloesol sy'n cynnig gwerth am arian ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Mae mwy na hanner y bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yng Nghymru yn mwynhau seibiannau byr a chymorth dydd hyblyg sydd wedi'u personoli i weddu i'w hanghenion nhw gyda gofalwr Cysylltu Bywydau. Mae hyn yn dangos pa mor effeithiol a fforddiadwy yw Cysylltu Bywydau fel dewis amgen i fodolau traddodiadol.
- Mae cynlluniau yng Nghymru yn datblygu ac yn arallgyfeirio i gynnig gwasanaethau i bobl o bob grŵp cleientiaid gofal cymdeithasol. Mae 12% o bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn bobl hŷn neu'n bobl sy'n byw gyda dementia.
- Cymru yw'r cyntaf o bedair gwlad y DU i gael cynllun Cysylltu Bywydau ar waith ym mhob ardal Awdurdod Lleol.
- Mae naw cynllun ar waith ar draws y 22 ardal Awdurdod Lleol. Mae dau ohonynt dan ofal sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r gweddill yng ngofal y sector cyhoeddus.
- Mewn tair ardal o Gymru, mae awdurdodau lleol wedi ffurfio trefniadau partneriaeth i ddarparu

neu gomisiynu cynlluniau Cysylltu Bywydau ar y cyd ac maent wedi llwyddo i sicrhau cwmplas gwasanaethau ac ehangu gwasanaethau, ac mae potensial i ardaloedd eraill efelychu hyn.

- Os mai Cysylltu Bywydau yw'r "dewis diofyn" ar gyfer cynorthwyo oedolion mewn ardal, h.y. rhwyd gynnig ar hyn cyn unrhyw ddewis arall, mae'r defnydd o'r gwasanaethau'n sylweddol uwch.

Heriau Cysylltu Bywydau Cymru yn y dyfodol

- Mae angen arallgyfeirio Cysylltu Bywydau i gynorthwyo mwy o lawer o grwpiau o bobl a allai elwa ar gael cymorth fel rhan o deulu yn y gymuned, nid dim ond y rheini ag anabledd dysgu.
- Mae cynlluniau â llai nag 20 o ofalwyr Cysylltu Bywydau yn debygol o fod mewn perygl o fod yn anghynaliadwy a methu â gwneud defnydd da o adnoddau. Ar gyfer y cynlluniau hyn, mae Cysylltu Bywydau a Mwy yn awgrymu bod angen dybryd i ddatblygu a thyfu'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynaliadwy a gwneud y mwyaf o'u potensial.
- Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 arloesol yn cael ei gweithredu o fis Ebrill 2016, a bydd angen i wasanaethau comisiynu adlewyrchu'r ethos newydd.
- Dylai'r prosiect Cysylltu Bywydau a Mwy newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2016, sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn a phobl â dementia, fod yn fuddiol i ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd ddarpariaeth y GIG a gwasanaethau lles cymdeithasol.
- Nid yw rheoliadau Cymru yn berthnasol yn bobl ifanc 16-18 oed fel ag y maent yn Lloegr, felly ni fyddant yn gallu elwa ar Cysylltu Bywydau yng Nghymru. Bydd cyfle i Cysylltu Bywydau Cymru ddylanwadu ar y rheoliadau newydd sy'n dod i rym dros y blynyddoedd nesaf ynghylch hyn.

- Nid oes unrhyw gynlluniau Cysylltu Bywydau yng Nghymru hyd yn hyn.
- Bydd angen i Cysylltu Bywydau a Mwy weithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill yn y Trydydd

Sector yng Nghymru, o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â rhoi prosesau casglu data cadarn ar waith ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

Rhagair Yr Athro Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad cyflwr y genedl cyntaf am y gwasanaeth Cysylltu Bywydau yng Nghymru.

Mae'n dangos i ba raddau y mae cysyniad Cysylltu Bywydau wedi cael ei fabwysiadu yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Gallwn ymfalchio yn y ffaith mai Cymru yw'r cyntaf o blith gwledydd y DU i gael cynlluniau Cysylltu Bywydau ym mhob un o'n hardaloedd awdurdod lleol.

Pan gyflwynwyd y rheoliadau ar gyfer cynlluniau lleoli oedolion yn 2004, roedd Cysylltu Bywydau'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a oedd angen lleoliad cefnogol mewn cartref teuluol er mwyn gallu byw bywydau bodlon yn eu cymunedau lleol. Ers hynny, rydym wedi gweld datblygiad llawer o gynlluniau arloesol a blaengar ledled Cymru, sydd wedi ymestyn y lleoliadau hyn i gynnig cymorth i amrywiaeth eang o oedolion agored i niwed ar wahanol gyfnodau o'u bywydau, yn cynnwys oedolion â dementia, pobl hŷn eiddil, oedolion agored i niwed sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ar ôl gorffen eu dedfryd, a phobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. I rai, mae Cysylltu Bywydau'n cynnig cartref hirdymor; i eraill, mae'n cynnig lleoliad tymor byr wrth iddynt baratoi i fyw'n annibynnol. Mantais dull Cysylltu Bywydau yw ei fod yn ddigon hyblyg i ymateb i amrywiaeth o anghenion ac amgylchiadau unigol ac nid oes yr un trefniant Cysylltu Bywydau yn union yr un fath. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y person, yn ataliol ac yn gefnogol, sef y math o ofal cymdeithasol rydym ni am ei hyrwyddo yng Nghymru.

Ni fyddai Cysylltu Bywydau yn llwyddo heb i bobl fod yn barod i gynnig eu hunain fel darparwyr Cysylltu Bywydau a heb eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'r gwasanaeth. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio mor galed i sicrhau bod trefniadau Cysylltu Bywydau yn gweithio i'r rheini y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu orau fel hyn.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith datblygu a wnaed gan Cysylltu Bywydau Cymru gyda chyllid grant. Mae Cysylltu Bywydau Cymru wedi cyflwyno cais llwyddiannus am grant o dan ein cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy newydd am dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2016. Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau Cysylltu Bywydau ar gyfer mwy o bobl hŷn yng Nghymru ac mae'n cefnogi'r gwaith o drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu pan ddaw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill.

Edrychaf ymlaen at ddarllen yn adroddiadau'r dyfodol am y gwahaniaeth y mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi ei wneud a'r ffyrdd cyffrous ac arloesol y bydd Cysylltu Bywydau yn datblygu yng Nghymru yn y dyfodol.

Ystadegau Allweddol

Yng Nghymru yn 2014/15 roedd:

- **970** o bobl yn cael cymorth trwy drefniadau Cysylltu Bywydau
- **49%** yn byw mewn trefniadau Cysylltu Bywydau
- **32%** o bobl yn mwynhau gwyliau byr a seibiant
- **19%** o bobl yn cael cymorth dydd

Y prif angen am gymorth sydd gan bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau:

- **710 (73%)** ag anabledd dysgu
- **90 (9%)** â dementia
- **80 (8%)** â phroblem iechyd meddwl
- **30 (3%)** ag angen am gymorth sy'n gysylltiedig â henaint
- **20 (2%)** â nam corfforol

Grwpiau oedran pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau:

- **770 (79%)** yn bobl o oedran gweithio (16-64)
- **200 (21%)** yn bobl hŷn (65+)

Yng Nghymru yn 2014/15 roedd 670 o ofalwyr Cysylltu Bywydau:

- **470 (60%)** yn darparu trefniadau Cysylltu Bywydau byw i mewn
- **200 (40%)** yn darparu seibiannau byr a chymorth dydd

Cynnwys

Negeseuon allweddol
Cysylltu Bywydau Cymru

Heriau Cysylltu Bywydau
Cymru

Rhagair y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol

Ystadegau Allweddol

Pobl sy'n defnyddio
gwasanaethau Cysylltu
Bywydau

Cymharu Cysylltu Bywydau
Cymru ar draws rhanbarthau
Cymru

Gofalwyr Cysylltu Bywydau

Gweithlu'r cynllun Cysylltu
Bywydau

Datblygiad a thwf Cysylltu
Bywydau yng Nghymru

Diolchiadau a methodoleg



Shared Lives Plus

G04, The Cotton Exchange,
Old Hall Street, Liverpool, L3 9JR

Ffôn: 0151 227 3499

E-bost: info@sharedlivesplus.org.uk

Twitter: [@sharedlivesplus](https://twitter.com/sharedlivesplus)

Registered Charity No 1095562
A Company Limited by Guarantee
Reg No 4511426 (England & Wales)

Cysylltu Bywydau a Mwy

Cysylltu Bywydau a Mwy yw rhwydwaith y DU ar gyfer rhoi gofal a chymorth i bobl anabl neu bobl hŷn drwy gysylltu bywydau. Ymhlith ein haelodau mae 5,000 o ofalwyr Cysylltu Bywydau, 150 o gynlluniau Cysylltu Bywydau lleol a 13 o sefydliadau Rhannu Cartref, ym mhob rhan o'r DU.

Ein nod yw sicrhau mai Cysylltu Bywydau a Rhannu Cartref yw'r dewisiadau cyntaf yn y dyfodol ar gyfer gofal, cymorth a chynhwysiant. Mae Cysylltu Bywydau yn tyfu'n gyflym gan ei fod yn cael ei ystyried fel gwasanaeth gofal, iechyd a lles o fath gwahanol, sy'n helpu pobl ag anghenion cymorth cymhleth i fyw bywydau da mewn cartrefi teuluol cyffredin ac fel aelodau gwerthfawr o'u cymuned.

Mae Cysylltu Bywydau a Mwy yn helpu ein haelodau i weithio gyda'i gilydd i oroesi a ffynnu, gan ddylanwadu ar wneuthurwyr polisi lleol a chenedlaethol a rhoi cymorth, hyfforddiant, digwyddiadau, adnoddau, rhaglenni ymchwil a mynediad i yswiriant.

Model gofal Cysylltu Bywydau

O dan gynllun Cysylltu Bywydau, mae oedolyn sydd angen cymorth a/neu lety yn mynd i fyw at, neu'n ymweld yn rheolaidd â, gofalwr Cysylltu Bywydau cymeradwy, ar ôl ystyried a ydynt yn debygol o gyd-dynnu'n dda. Gyda'i gilydd, maent yn rhannu bywyd teuluol a chymunedol. Mae mwy na hanner y 13,000 o bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau ledled y DU yn byw gyda'u gofalwr mewn aelwyd gefnogol; mae hanner yn ymweld â'u gofalwr Cysylltu Bywydau i gael cymorth dydd neu i aros dros nos. Mae ffigurau Cymru o dan rai amgylchiadau ychydig yn wahanol i niferoedd cyfartalog y DU, a nodir hynny yn yr adroddiad hwn lle bo'n berthnasol.

Mae Cysylltu Bywydau'n cael ei ddefnyddio fel carreg sarn cyn i rywun gael ei gartref ei hun. Gall y canlyniadau fod yn syfrdanol, gyda phobl yn dweud eu bod yn teimlo'n sefydlog, yn werthfawr ac fel eu bod yn perthyn am y tro cyntaf yn eu bywyd. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn cymryd rhan mewn clybiau, gweithgareddau a gwirfoddoli.

Mae Cysylltu Bywydau yn cael ei ddefnyddio gan bobl ag anableddau dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn, pobl sy'n gadael gofal, oedolion ifanc anabl, rhieni ag anableddau dysgu a'u plant, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau a throseddwy. Mae'n cael ei ddatblygu fel cartref o wasanaeth ysbty, gwasanaeth iechyd meddwl aciwt a math o seibiant byr ar gyfer gofalwyr teuluol. Mae mwy nag wyth mil o ofalwyr Cysylltu Bywydau yn y DU, sy'n cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cymeradwyo gan gant a hanner a mwy o gynlluniau lleol, sy'n cael eu rheoleiddio gan arolygwyr gofal pob un o wledydd y DU.



- [1] Blaenau Gwent
- [2] Pen-y-bont ar Ogwr
- [3] Caerffili
- [4] Caerdydd
- [5] Sir Gaerfyrddin
- [6] Ceredigion
- [7] Conwy
- [8] Sir Ddinbych
- [9] Sir y Fflint
- [10] Gwynedd
- [11] Ynys Môn
- [12] Merthyr Tudful
- [13] Sir Fynwy
- [14] Castell-nedd Port Talbot
- [15] Casnewydd
- [16] Sir Benfro
- [17] Powys
- [18] Rhondda Cynon Taf
- [19] Abertawe
- [20] Tor-faen
- [21] Bro Morgannwg
- [22] Wrecsam

Pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau


Yn draddodiadol, pobl ag anableddau dysgu sydd wedi defnyddio Cysylltu Bywydau yn bennaf. Er mai dyma'r grŵp mwyaf o bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau o hyd, mae cynlluniau'n dechrau datblygu

ac arallgyfeirio eu gwasanaethau i weithio gyda grwpiau newydd o bobl a chynnig amrywiaeth o gymorth byw i mewn, seibiannau byr a chymorth dydd fel y dengys y wybodaeth isod.

Mathau o drefniadau Cysylltu Bywydau

Math o drefniant Cysylltu Bywydau	Amcangyfrif o nifer y bobl	% pob math o drefniant Cysylltu Bywydau
Byw i mewn	470	49%
Seibiannau byr	310	32%
Cymorth dydd	190	19%
Cyfanswm	970	100%


Pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn ôl y math o drefniant Cysylltu Bywydau



Cafwyd gwybodaeth gan saith cynllun Cysylltu Bywydau ynghylch y prif angen am gymorth sydd gan bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yng Nghymru, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y ffigurau hyn. Mae 73% o bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn ei ddefnyddio'n bennaf fel gwasanaethau anabledd dysgu, mae 9% yn byw gyda dementia ac mae 8% yn defnyddio Cysylltu Bywydau fel gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r tabl isod yn dangos 'prif' anghenion cymorth y bobl sy'n cael cymorth drwy drefniadau Cysylltu Bywydau yn unig, ym marn rheolwyr cynlluniau, ac nid oes gwybodaeth am amodau eilaidd yma.


Prif angen am gymorth	%
Anabledd dysgu	73%
Dementia	9%
Iechyd meddwl	8%
Angen am gymorth sy'n gysylltiedig â henaint (heb gynnwys dementia)	3%
Arall	2%
Nam corfforol	2%
Cyffuriau/ Alcohol	1%
Pontio/ rhywun heb anabledd sy'n gadael gofal	1%
Rhiant gyda phlentyn	<1%
Gofal canolraddol/ ail-alluogi	<1%
Troseddwyr	<1%
Pontio/ plant anabl	0%
Cyfanswm	100%

Pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn ôl eu prif angen am gymorth gofal cymdeithasol: prif grwpiau gofal cymdeithasol



Pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn ôl oedran, rhyw ac ethnigrwydd


Oedran pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau



Ledled Cymru, mae 79% o'r bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn oedolion o oedran gweithio, a phobl hŷn yw 21% arall. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynlluniau Cysylltu Bywydau yn Lloegr wedi cael eu hymestyn i gynnwys trydydd chategori oedran, sef 16-18 oed. Dyma'r grŵp lleiaf o hyd ond mae tyfu'n gyflym


ers ei sefydlu, ac mae bellach yn cyfrif am 1% o'r bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau yn Lloegr. Yng Nghymru, byddai hyn yn gofyn am newid y rheoliadau, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn digwydd mewn deddfwriaeth a rheoliadau newydd dros y blynyddoedd nesaf.

Rhyw pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau



■ Dynion
■ Menywod

Ethnigrwydd pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau




■ Gwyn/ Gwyn Seisnig / Teithiwr Gwyddelig / Cymro / Albanwr / Gwyddel o Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr
■ Ddim yn casglu'r wybodaeth hon


Gwahaniaethau rhanbarthol ar gyfer pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a maint cynlluniau yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Yn y Gogledd, y De-ddwyrain a'r Gorllewin, mae awdurdodau lleol wedi sefydlu partneriaethau i ddarparu neu gomisiynu cynlluniau Cysylltu Bywydau ar y cyd. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus ac maent yn lleihau costau ar gyfer ardaloedd unigol.


Pobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau fesul rhanbarth



Cymhariaeth ranbarthol o drefniadau Cysylltu Bywydau byw i mewn




Cymhariaeth ranbarthol o drefniadau seibiant byr



Cymhariaeth ranbarthol o drefniadau Cysylltu Bywydau cymorth dydd



Dadansoddiad rhanbarthol yn ôl oedran



Gofalwyr Cysylltu Bywydau

Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn dod o gefndiroedd o bob math, ac maent yn dewis gofalu am lu o resymau gwahanol. Mae darpar ofalwyr Cysylltu Bywydau yn cael hyfforddiant llawn gan y cynllun Cysylltu Bywydau lleol ac maent yn gorfod cwblhau proses drylwyr cyn cael eu cymeradwyo er mwyn sicrhau diogelwch a lles y bobl sy'n cael gofal a'r gofalwr Cysylltu Bywydau a'i deulu. Mae brwdfrydedd, ymroddiad a gwerthoedd cadarn yn bwysicach na phrofiad ffurfiol o ofalu, er bod gan o leiaf draean o ofalwyr Cysylltu Bywydau gefndir o ryw fath ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae bod yn ofalwr Cysylltu Bywydau yn fwy na swydd - mae'n ffordd o fyw. Mae angen y rhinweddau personol cywir ar ofalwyr Cysylltu Bywydau - mae angen hyblygrwydd, agwedd gadarnhaol, y gallu i rymuso eraill a'r gallu i ganolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu'r parodrwydd i gynnig amser, anogaeth ac amgylchedd sefydlog a chefnogol ynghyd â chred mewn helpu pobl i allu mwynhau cyfleoedd bywyd


cyffredin a chymryd risgiau positif, gyda pherthynas ofalu hirdymor wrth gefn y cyfan. Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn hunangyflogedig ac yn defnyddio'u cartrefi eu hunain ar gyfer y gofalu. Yr awdurdod lleol neu'r cynllun ei hun sy'n pennu cyfraddau tâl ac maent yn amrywio yn ôl lleoliad ac anghenion yr unigolyn sy'n byw yn y trefniant Cysylltu Bywydau. Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn cael tâl am rywfaint o'u hamser, rhent a chyfraniad at gostau'r aelwyd - biliau ynni a bwyd, er enghraifft. Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau gan amlaf yn cynnig llawer mwy nag y maent yn cael tâl amdano ac maent yn gallu meddwl yn greadigol ac adnabod problemau iechyd a lles posibl yn gynnar. Maent hefyd yn galw ar gymorth teulu a ffrindiau, sy'n cyfrannu heb dâl. Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn angerddol ac yn ymroddgar am y cymorth maent yn ei roi a nhw yw'r rheswm pam mae Cysylltu Bywydau yn fath o ofal grymus ac effeithiol yn ein cymuned.

Cafwyd data manwl gan saith cynllun Cysylltu Bywydau ar gyfer yr arolwg hwn am nifer y gofalwyr fesul categori o gymorth: byw i mewn, seibiannau a chymorth dydd. O gymryd bod data'r saith cynllun Cysylltu Bywydau hyn yn cynrychioli'r sector Cysylltu Bywydau cyfan, gellir amcangyfrif bod y canlynol yn wir yng Nghymru:

- Mae yna 670 o ofalwyr Cysylltu Bywydau
- Mae 470 yn darparu cymorth byw i mewn
- Mae 200 yn darparu seibiannau a chymorth dydd yn unig
- Mae gan 88% o gynlluniau ofalwyr Cysylltu Bywydau sy'n cynnig cymorth byw i mewn
- Mae gan 100% o gynlluniau ofalwyr Cysylltu Bywydau sy'n cynnig seibiannau byr a chymorth dydd

Naw yn unig o ofalwyr Cysylltu Bywydau byw i mewn sydd gan y cynllun lleiaf. Mae gan y cynllun unigol mwyaf 256 o ofalwyr Cysylltu Bywydau yn gweithio ar draws ei ardaloedd awdurdod lleol yn cynnig trefniadau byw i mewn a seibiannau byr. Mae gan fwyaf y cynlluniau ledled Cymru rhwng 41 a 60 gofalwr Cysylltu Bywydau. Y canolbarth sydd â'r nifer lleiaf o ofalwyr Cysylltu Bywydau, 30 yn unig, ond mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un cynllun sy'n gwasanaethu'r ardal denau ei phoblogaeth hon.

Nifer y cynlluniau Cysylltu Bywydau yn ôl nifer y gofalwyr Cysylltu Bywydau



Nodweddion gofalwyr Cysylltu Bywydau


- Gofynnwyd i gynlluniau Cysylltu Bywydau ddarparu unrhyw wybodaeth yr oeddent wedi'i chasglu am ddemograffeg eu gofalwyr Cysylltu Bywydau. Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn hunangyflogedig ac nid yw llawer o gynlluniau yn cadw data demograffig manwl am eu gofalwyr Cysylltu Bywydau cymeradwy fel mater o drefn. Yn anffodus, nid oes gwybodaeth safonol ar gael ar draws y sector, ond dyma ddywedodd rheolwyr cynlluniau a ddarparodd ddata:
- mae 84% o ofalwyr Cysylltu Bywydau o oedran gweithio (18-64), ac mae 16% yn bobl hŷn (65 oed a throsodd).
- mae 63% o ofalwyr Cysylltu Bywydau yn fenywod a 37% yn ddynion. Mae hyn yn dangos bod cryn dipyn mwy o ddynion yn cynnig gofal a chymorth drwy gynlluniau Cysylltu Bywydau o gymharu ag 19% o ddynion yng ngweithlu gofal cymdeithasol cenedlaethol y DU.
- mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn tueddu i gynnwys ychydig mwy o amrywiaeth o ran ethnigrwydd na gweithlu'r cynllun. Er hynny, o'r data oedd ar gael, mae mwyafrif llethol gofalwyr, defnyddwyr a staff Cysylltu Bywydau yn tueddu i ddod o gefndir Gwyn/Prydeinig. Rhaid i gynlluniau a Cysylltu Bywydau a Mwy wneud mwy i gynnig dewis amgen go iawn i'r bobl o gefndiroedd amrywiol sydd gennym yng Nghymru heddiw.

Gofalwyr Cysylltu Bywydau yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd


Oedran

Grwpiau oedran	Nifer y gofalwyr Cysylltu Bywydau	%
Oedran gweithio	570	85%
Pobl hŷn	110	16%
Cyfanswm	670	101%

Rhyw gofalwyr Cysylltu Bywydau



Ethnigrwydd gofalwyr Cysylltu Bywydau



Jackie, Janet a Sallie

– De-ddwyrain Cymru

Roedd Jackie a Janet yn byw gyda'i gilydd ers saith mlynedd mewn llety â chymorth, gyda'u byji Gandalf. Cafodd y ddwy eu cyfeirio at y cynllun gyda'i gilydd, gyda'r bwriad y byddai un gofalwr sesiynol yn cynorthwyo'r ddwy i fagu hyder wrth wneud tasgau bob dydd fel coginio, glanhau a thalu biliau. Mae cymorth Sallie, eu gofalwr Cysylltu Bywydau, wedi gwneud byd o wahaniaeth i hyder Jackie yn arbennig. Cyn dechrau cael cymorth sesiynol, roedd Jackie'n bryderus iawn ynglŷn â mynd ati i goginio prydau i'w hunan. Mae Sallie wedi helpu i ddangos gwahanol ffyrdd o goginio a ryseitiau i Jackie.

Mae'r tair yn mwynhau mynd i rywle am y diwrnod yn rheolaidd, a'r peth nesaf ar restr Jackie yw mynd ar wyliau yn 2016. Yr hyn sy'n amlwg am y trefniant hwn yw' pa mor effeithiol y mae help llaw Sallie wedi bod ym mywyd Jackie. Trwy feithrin sgiliau domestig fel coginio a thalu biliau, mae Sallie wedi cynyddu hyder Jackie ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol tu hwnt ar ei bywyd.

O holi Jackie sut mae'n teimlo am y cymorth y mae wedi cael o'i phartneriaeth gyda Sallie a'i phrofiad o Cysylltu Bywydau, mae'n ateb "grêt, rhyfeddol. Dwi'n hapusach nag erioed o'r blaen".

Nifer y gofalwyr Cysylltu Bywydau yn ôl y math o drefniant Cysylltu Bywydau a ddarperir

Rhanbarth	Byw i mewn	% gofalwyr Cysylltu Bywydau	Seibiannau byr a chymorth dydd	% gofalwyr Cysylltu Bywydau
North Wales	120	25%	10	5%
Mid Wales	20	4%	0	0%
West Wales	80	17%	0	0%
South East Wales	170	35%	120	63%
South Wales	90	19%	60	32%
Total	480	100%	190	100%

Gayle, Janice a Terry

– Merthyr Tudful

Cyn Cysylltu Bywydau, roedd Gayle yn byw gartref gyda'i rhieni. Penderfynodd ei bod hi'n amser am newid, ond roedd hi am barhau i gael cefnogaeth debyg i'r hyn roedd hi'n ei chael gan ei theulu gartref, oherwydd bod ganddi Enseffalitis Myalgig. Dyma hi'n troi at Cysylltu Bywydau.

Mae Gayle wedi bod yn byw gyda Janice, Terry a'u plant ers mwy na dwy flynedd bellach ac mae'n amlwg eu bod yn gweddu i'w gilydd i'r dim.

Wrth benderfynu beth roedd hi ei eisiau gan drefniant Cysylltu Bywydau, ar frig ei rhestr roedd teulu Cristnogol y gallai hi rannu ei ffydd gyda nhw, cael aros yn ardal Merthyr er mwyn bod yn agos at ei theulu a'i ffrindiau a, hefyd, cath ddu a gwyn.

Cafodd gyfarfod gyda Kathryn Williams, un o weithwyr Cysylltu Bywydau. Pan glywodd hi'r rhestr o ddymuniadau Gayle, roedd hi'n gwybod am yr union deulu iddi.

Cafodd Terry a Janice eu cymeradwyo fel gofalwyr Cysylltu Bywydau ym mis Rhagfyr 2012. Maent yn deulu Cristnogol gyda phedwar

o blant. Mae Janice wedi bod yn nyrsio ers blynyddoedd ac mae Terry'n gweithio fel parafeddyg. Mae'r teulu'n byw ym Merthyr, taith fer yn y car o gartref teuluol Gayle. I goroni'r cyfan, mae ganddyn nhw gath ddu a gwyn o'r enw Felix.

Y tro cyntaf iddyn nhw gyfarfod, fe wnaeth pawb glicio ar unwaith ac mae Janice yn cofio teimlo bod "popeth wedi cwmpo i'w le". Mae teulu Gayle yn byw gerllaw felly maent yn gallu galw i'w gweld yn rheolaidd ac mae Gayle yn mynd adref i aros gyda nhw o bryd i'w gilydd.

Mae Gayle, Terry a Janice i gyd o'r farn fod eu ffydd wedi bod yn bwysig iawn o ran dod â nhw at ei gilydd. Mae'r berthynas rhyngddynt yn teimlo'n naturiol iawn ac mae'n amlwg bod Gayle yn cael ei hystyried yn aelod o'r teulu.

Mae Gayle yn egluro bod y lleoliad Cysylltu Bywydau wedi rhoi'r "gorau o ddau fyd" iddi gan ei bod hi'n gallu mwynhau manteision bywyd bob dydd yr aelwyd yn ogystal â lle a phreifatwydd.

Gweithlu cynlluniau Cysylltu Bywydau

Mae cynlluniau Cysylltu Bywydau yn gyfrifol am weinyddu Cysylltu Bywydau a nhw sy'n gyfrifol am y prosesau cymeradwyo a pharu sy'n rhoi'r cyfle gorau i drefniadau Cysylltu Bywydau lwyddo. Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant, a chymorth ac arweiniad parhaus, i ofalwyr Cysylltu Bywydau.


Y broses baru yw calon Cysylltu Bywydau – gwneud yn siŵr bod trefniant yn cynnig y ffit gorau posibl, gan edrych ar ddi-ddordebau cyffredin a phersonoliaethau fel bod gan bob trefniant y cyfle gorau i lwyddo ar gyfer y gofalwr Cysylltu Bywydau a'r sawl sy'n cael gofal.

Gall cynlluniau Cysylltu Bywydau fod yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliadau annibynnol, a

chaiff pob cynllun ei reoleiddio gan arolygwyr gofal cymdeithasol y llywodraeth, sef Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a rhaid iddynt gadw at yr un rheolau i sicrhau diogelwch y bobl sy'n cael gofal. Mae naw cynllun Cysylltu Bywydau ar waith yng Nghymru mewn pum rhanbarth, sy'n cynnwys pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol i oedolion. Mae rhai cynlluniau Cysylltu Bywydau yn darparu gwasanaethau i fwy nag un ardal awdurdod lleol, ac mae cynlluniau'n gorgyffwrdd mewn rhai ardaloedd.

Mae'r map isod yn dangos cynlluniau Cysylltu Bywydau yng Nghymru

Enw'r Cynllun	Ardaloedd Awdurdod Lleol mae'n eu gwasanaethu
Ategi	Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr
Cysylltu Bywydau Sir Ddinbych	Sir Ddinbych
Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn	Gwynedd, Ynys Môn
Cysylltu Bywydau Powys	Powys
PSS Wales	Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Gwynedd
Cynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru	Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen
Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru	Sir Gâr, Sir Benfro, Ceredigion
Cysylltu Bywydau Wrecsam	Wrecsam



Staffio a throsiant staff

Mae cynlluniau Cysylltu Bywydau yng Nghymru yn cael eu rhoi ar waith gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Sector Gwirfoddol, gyda thuedd i roi'r gwaith ar gontract y tu allan i gylch gwaith Awdurdodau Lleol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyfuniad hwn o ddulliau cyflwyno gwasanaethau yn cynnig cymysgedd cyfoethog o brofiad ac arbenigedd i Cysylltu Bywydau Cymru a bydd yn sicr yn faes diddorol wrth gasglu data yn y dyfodol.

Mae staff Cysylltu Bywydau yn driv ac yn ymroddgar tu hwnt, a'r rheswm mwyaf cyffredin a roddir am ymuno â'r sector yw 'her newydd'. Ymhlith y themâu eraill a nodwyd gan weithwyr y cynlluniau dros ddewis gweithio i gynllun Cysylltu Bywydau oedd 'Diddordeb mewn Cysylltu Bywydau', 'Enw da'r cynllun' ac, yn ddigon diddorol, 'dull gweithredu arall heblaw rheoli achosion'. Ar y llaw arall, er bod trosiant staff yn isel, roedd rhesymau dros adael yn cynnwys 'cyfleoedd newydd' a 'straen cysylltiedig â gwaith'. Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, ymunodd 6 aelod staff newydd â chynlluniau yng Nghymru a dim ond un wnaeth adael. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn staff yng Nghynllun De-ddwyrain Cymru, gyda hanner yr aelodau staff newydd yn ymuno â'r cynllun hwn. Mae hyn yn adlewyrchu maint sylweddol y cynllun yn y rhanbarth hwnnw o Gymru a thwf y cynllun.

Mae maint cynlluniau'n amrywio cryn dipyn, gyda rhwng tri a dau ar bymtheg o staff – mae gan y


rhan fwyaf o gynlluniau aelodau staff sy'n cynnwys rheolwr a chydgyssylltwyr. Mae gan ryw 83% o gynlluniau swyddog gweinyddol penodedig hefyd.

Mae rhywfaint o wahaniaethau rhanbarthol, gyda chynlluniau yn y gogledd yn debygol o fod â llai o aelodau staff, a chynlluniau yn y de-ddwyrain a'r gorllewin yn tueddu i fod â rhagor o staff. Mae tua 57 o aelodau staff yn gweithio i'r naw cynllun ledled Cymru. Ar gyfartaledd, mae gan bob cynllun yng Nghymru un aelod staff am bob naw gofalwr Cysylltu Bywydau sydd wedi cofrestru gyda'r cynllun hwnnw. Mae Cysylltu Bywydau a Mwy yn argymhell y dylai fod gan bob cynllun o leiaf un aelod staff i bob pump ar hugain o drefniadau. Mae gan bob cynllun un rheolwr, Cynllun Gorllewin Cymru sydd â'r nifer uchaf o gydgyssylltwyr a'r Canolbarth sydd â'r nifer isaf.

Mae'n ddiddorol nodi bod gan tua hanner y rheolwyr cynllun yng Nghymru gyfrifoldebau eraill y tu allan i'r cynllun Cysylltu Bywydau.

Nid yw teitlau swyddi yn gyson ar draws y cynlluniau i gyd. Mae rhai'n cael eu galw'n gydgyssylltwyr, ac mae eraill yn swyddogion sy'n cyflawni'r un dyletswyddau fel rhan o'u rôl. Cafwyd data manwl gan gyfanswm o saith cynllun Cysylltu Bywydau ynghylch lefelau staffio ar gyfer rheolwyr cynlluniau Cysylltu Bywydau, gweithwyr Cysylltu Bywydau ac a oedd ganddynt gymorth gweinyddol penodedig.


Nifer staff cynllun Cysylltu Bywydau yn ôl y math o weithiwr




Pobl sy'n gweithio i Cysylltu Bywydau yn ôl oedran, rhyw ac ethnigrwydd

- Mae holl aelodau staff Cysylltu Bywydau yn oedolion o oedran gweithio.
- O'r 57 o weithwyr cynllun yng Nghymru, mae 12 yn ddynion a 45 yn fenywod.
- Mae un gweithiwr cynllun Cysylltu Bywydau am bob naw gofalwr Cysylltu Bywydau ar gyfartaledd ym mhob cynllun yng Nghymru

Rhyw gweithwyr cynlluniau Cysylltu Bywydau



Ethnigrwydd staff cynlluniau Cysylltu Bywydau





"Rwy'n ofalwr Cysylltu Bywydau amser llawn, ond dwi ddim yn ei weld fel gwaith. Mae'n rhoi cymaint o foddhad i mi."

Bryan a John

- Casnewydd

Gofalwyr Cysylltu Bywydau o Gasnewydd yw Bryan a John. Maent yn cynorthwyo dau berson mewn trefniadau byw i mewn ar hyn o bryd ac maent yn cynnig seibiannau byr hefyd.

Meddai John, "Rwy'n ofalwr Cysylltu Bywydau byw i mewn, ond dwi ddim yn ei weld fel gwaith. Mae'n rhoi cymaint o foddhad i mi. Yn aml, mae pobl yn dod o gefndir anhapus ac mae'n braf bod y rhan o'u datblygiad. Mae'r ddau ddyn rydyn ni'n eu cynorthwyo ar hyn o bryd yn rhan o'r gymuned heb os. Mae pobl yn y siop neu'r dafarn yn dweud wrtha i "Weles i Alan neu Phil

heddiw" neu mae'r cymdogion yn dweud eu bod wedi bod yn siarad â nhw ar y bws. Mae'n beth da oherwydd petai ryw beth yn digwydd, byddem ni'n dod i wybod. Mae ffonau symudol gan y ddau hefyd ac rydym ni wedi eu dysgu nhw sut i'w defnyddio. Mae gennym ni berthynas wych gyda'u teuluoedd hefyd. Mae Alan yn mynd i dŷ ei chwaer yn rheolaidd - mae'n mynd yno ar y bws ac yn cael mynd allan am ginio. Mae ei deulu'n gwybod mai dyma yw cartref Alan a bod croeso iddyn nhw alw i weld yma hefyd.

Ffocws ar Dde-Ddwyrain Cymru



**SOUTH EAST WALES
SHARED LIVES SCHEME
CYNLLUN CYSYLLTU
BYWYDAU
DE DDWYRAIN CYMRU**

Un cynllun sydd ar waith yn y de-ddwyrain, sef Cynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru (SEWSLS).

Mae chwe awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau Cysylltu Bywydau i oedolion agored i niwed ledled y de-ddwyrain, sef: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Sir Fynwy, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Yn ddi-ddorol iawn, nid yw Merthyr Tudful yn y de-ddwyrain ond gan ei fod yn Awdurdod Lleol bach, roedd am ymuno ag awdurdodau bach eraill er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Mae'r pum Awdurdod Lleol arall yn cyd-fynd yn union â ffiniau'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac mae 7 o'r rheini yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynnig ystod lawn o wasanaethau, yn cynnwys: cymorth byw i mewn, tymor byr, seibiant, brys, a sesiynol.

Ar ôl cael ei ffurfio fel partneriaeth newydd rhwng yr awdurdodau lleol 3 blynedd yn ôl, mae'r gwasanaeth wedi mynd o nerth i nerth a dyma'r cynllun unigol mwyaf yng Nghymru erbyn hyn, yn gwasanaethu bron i hanner y 970 o bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i amrywiaeth eang o gategoriâu, ond mae dal i fod ganddo'r gallu i ddatblygu cymorth i grwpiau eraill o bobl yn cynnwys pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol neu bobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion.

Datblygiad a Thwf Cysylltu Bywydau yng Nghymru

Dyma'r astudiaeth fanwl gyntaf o'i math o gynlluniau Cysylltu Bywydau yng Nghymru. Mae'n cyfleu darlun cadarnhaol tu hwnt o wasanaeth sydd wedi tyfu'n gyflym i helpu i sicrhau bod cannoedd o oedolion agored i niwed ar draws y wlad yn cael dewis go iawn o ran sut maent yn cael eu cynorthwyo, ac yn mwynhau'r cyfle i gymryd rhan mewn bywyd teuluol bob dydd. Mae'n rhoi darlun o gyfleoedd enfawr, ac ar ddiwedd 2015 mae newid mawr ar y gorwel i Cysylltu Bywydau yng Nghymru wrth i'r sector gofal cymdeithasol a gofal iechyd newid am byth o fewn fframwaith deddfwriaethol newydd sy'n seiliedig ar arloesedd a chanlyniadau gwell. Os yw Cysylltu Bywydau am dyfu o fod yn wasanaeth sy'n agos at galonau cannoedd o bobl i un sy'n cael ei drysori gan filoedd fel gwasanaeth ar gyfer y farchnad dorfol yng Nghymru, mae'n

hollbwysig manteisio ar y foment hon.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld twf sylweddol, nid yn unig yn nifer y bobl sy'n defnyddio Cysylltu Bywydau, ond yn amrywiaeth yr anghenion gofal cymdeithasol sydd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd. Mae mwy o gynlluniau Cysylltu Bywydau yn cynnig seibiannau byr a chymorth dydd yn ogystal â threfniadau byw i mewn, felly mae'n apelio i amrywiaeth ehangach o bobl sy'n chwilio am gymorth.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Cysylltu Bywydau yn rhan bwysig a hynod effeithiol o'r system gofal cymdeithasol yn barod. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw ymdrech gan bawb i sicrhau bod mwy o lawer o bobl yn gallu manteisio ar y ffordd o fyw boblogaidd hon.

